*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 878 (Cy.83)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *21 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 12(2), 15(3), 16(3), 22(7) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac adrannau 79F, 87D ,104(4) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 7 o Atodlen 9A iddi(**2**) ac adran 94(6) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r "appropriate Minister": *gweler* y diffiniad o "regulations" yn adran 121(1) o Ddeddf 2000. Ystyr "appropriate Minister", o ran Cymru, yw "the Assembly"; ystyr "the Assembly" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *gweler* adran 5(1)(b) o Ddeddf 2000. *Gweler* adran 121(1) o Ddeddf 2000 i gael y diffiniad o "prescribed". Yn rhinwedd O.S. 2004/1756 (Cy. 188), mae'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan II o Ddeddf 2000 yn arferadwy mewn perthynas â chynlluniau lleoli oedolion.

(**2**) 1989 p.41. *Gweler* adran 79B o Ddeddf 1989 i gael y diffiniad o "regulations" ac adran 105 i gael y diffiniad o "prescribed". Mae'r pŵer o dan adran 87D wedi'i roi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn rhinwedd Erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), y cofnod ynglŷn â Deddf 1989 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw ac adran 120(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 87D o Ddeddf 1989 yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru.

(**3**) Diddymwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag adran 51 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 gan Ran 2 o Atodlen 14 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ac a ddisodlwyd gan adran 94 o Ddeddf 2003.